# Polisi Mynediad Agored Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru

## Cyflwyniad

Mae cyhoeddi mynediad agored yn golygu bod ymchwil academaidd ar gael yn rhad ac am ddim, ar unwaith ac yn barhaol ar-lein i unrhyw un ei ddarllen, ei rannu a'i ailddefnyddio. Mae'r polisi hwn yn cefnogi'r egwyddorion sylfaenol y dylai syniadau a gwybodaeth sy'n deillio o ymchwil a ariennir yn gyhoeddus:

- fod ar gael ac yn hygyrch i'r cyhoedd eu defnyddio mor eang, mor gyflym ac effeithiol â phosibl;
- fod yn hawdd eu darganfod i'r rhai a allai fod eisiau ymchwilio, rhannu a defnyddio canlyniadau ein hymchwil cyhoeddedig, gan gynnwys cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr a'r cyhoedd; ac
- yn cael eu cadw ac yn parhau'n hygyrch i genedlaethau'r dyfodol.

Mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod data a chyhoeddiadau sy'n deillio o'r ymchwil a ariannwn ar gael i gynifer o bobl â phosibl. Credwn fod cyhoeddi mynediad agored yn hanfodol i'r gymuned ymchwil gan ei fod yn annog rhannu gwybodaeth yn amserol, yn atal dyblygu a gwastraff, ac yn y pen draw, yn cyflymu dilyniant ymchwil.

## Cwmpas

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i'r holl erthyglau ymchwil a adolygir gan gymheiriaid (gan gynnwys adolygiadau nas comisiynir gan gyhoeddwyr a phapurau cynhadledd) sydd:

- yn cael eu cefnogi'n gyfan gwbl neu'n rhannol gan gyllid Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru; ac
- yn cael eu cyflwyno i'w cyhoeddi ar neu ar ôl 1 Medi 2022.

Nid yw'r polisi'n berthnasol i erthyglau a gyflwynwyd i'w cyhoeddi cyn 1 Medi 2022. Fodd bynnag, rydym yn annog awduron i hunan-archifo erthyglau o'r fath ar Europe PMC, a gallant wneud hynny heb unrhyw gost ychwanegol.

## Polisi

1. Rhaid gwneud pob erthygl o fewn y cwmpas yn un â **mynediad agored ar unwaith** cyn gynted ag y caiff ei chyhoeddi, heb unrhyw gyfnod embargo.

2. Rhaid i'r Fersiwn o Gofnod ddiweddaraf neu'r Llawysgrif Awdur a Dderbynnir fod ar gael yn rhwydd ar unwaith trwy **Europe PMC**, heb unrhyw gyfnod embargo.

3. Rhaid cyhoeddi pob erthygl o fewn y cwmpas o dan **drwydded Priodoli Creative Commons (CC BY)** (neu Drwydded Llywodraeth Agored (OGL) pan fo'n destun i Hawlfraint y Goron), fel y gall holl ddefnyddwyr yr ymchwil ledaenu ac adeiladu ar y deunydd i unrhyw ddiben heb fod angen caniatâd neu ffioedd pellach.

   Fel eithriad, gallwch ofyn i erthyglau unigol gael eu cyhoeddi o dan drwydded **Dim-deilliadau Creative Commons** (CC BY-ND), fel na ellir defnyddio eich ymchwil i greu gwaith deilliadol heb eich caniatâd. I wneud cais am yr eithriad hwn, dylech anfon e-bost at healthandcareresearchgrants@gov.wales. Bydd angen i chi gael cymeradwyaeth i'ch cais cyn i'ch papur gael ei gyflwyno i'w gyhoeddi.

   Nid yw’r gofynion trwyddedu hyn yn berthnasol i unrhyw ddeunyddiau sydd wedi’u cynnwys mewn erthygl ymchwil a ddarperir gan ddeiliaid hawlfraint trydydd parti. Gall y deunyddiau trydydd parti yn yr erthygl fod yn destun trwyddedau hawlfraint mwy cyfyngol nag a amlinellir yn y polisi hwn.

4. Dylai cyhoeddiadau **gydnabod cefnogaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru**. Rhaid i chi gynnwys y testun canlynol ym mhob cyflwyniad:

   > *Cafodd yr ymchwil hwn ei ariannu'n gyfan gwbl, neu'n rhannol, gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru [Rhif grant xxxxx]. At ddibenion cymhwyso agored [trwydded Priodoli Creative Commons (CC BY)] ['Trwydded Llywodraeth Agored'] (neu lle caniateir hynny gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd) [trwydded Dim-Deilliadau Priodoli Creative Commons (CC BY-ND)] i unrhyw fersiwn Llawysgrif Awdur a Dderbynnir sy'n codi".*

5. Rhaid i bob erthygl ymchwil o fewn y cwmpas gynnwys **datganiad data** sy'n disgrifio sut y gellir cyrchu'r data ymchwil sylfaenol. Lle mae rhesymau dros ddiogelu mynediad at y data, er enghraifft cyfrinachedd masnachol neu sensitifrwydd ynghylch data sy’n deillio gan gyfranogwyr dynol a allai fod yn adnabyddadwy, dylid cynnwys y rhain yn y datganiad.

6. Bydd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn talu ffioedd mynediad agored rhesymol (fel Taliadau Prosesu Erthyglau) sy’n ofynnol i gyhoeddi yn unol â’r polisi hwn (gweler y **Cyngor ar gostau** isod).

## Cydymffurfio

Yn ymarferol, mae ein polisi mynediad agored yn golygu bod angen i ymchwilwyr naill ai gyhoeddi eu herthygl mewn cyfnodolyn sy'n cynnig opsiwn mynediad agored ar unwaith (a elwir weithiau'n "Mynediad Agored Aur"), neu un sy'n caniatáu i'r awdur hunan-archifo'r llawysgrif derfynol yn EuropePMC ar unwaith.

Mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn monitro cydymffurfiaeth â'r polisi hwn, gan gynnwys adolygu gwybodaeth a adroddwyd drwy Researchfish ac EuropePMC.

O 1 Ebrill 2022, bydd y gofynion polisi hyn yn cael eu gwneud yn rhan o amodau grant Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru.

## Cyngor ar ddewis cyfnodolyn

Dylai pob un o'n deiliaid dyfarniadau sy'n cyflwyno llawysgrifau i gyfnodolion ddarganfod ymlaen llaw a fydd y cyfnodolyn dan sylw yn eu galluogi i fodloni gofynion y polisi hwn, naill ai drwy gynnig opsiwn Mynediad Agored ar unwaith, neu drwy ganiatáu i'r awdur hunan-archifo'r llawysgrif ar unwaith ar EuropePMC o dan drwydded agored.

Mae gwasanaeth SHERPA RoMEO, a gynhelir gan Brifysgol Nottingham, yn adnodd ar-lein sy'n rhoi gwybodaeth fesul cyfnodolyn am hawlfraint y cyhoeddwr a pholisïau archifo mynediad agored.

**Opsiwn mynediad agored**
Mae cylchgronau sy'n darparu opsiwn mynediad agored ar unwaith (Aur) yn cynnwys yr holl gyhoeddwyr mynediad agored (fel BioMed Central a'r Public Library of Science) yn ogystal â nifer cynyddol o gyhoeddwyr traddodiadol sydd wedi cyflwyno model lle gellir gwneud erthyglau unigol yn rhai mynediad agored.

Fel arfer bydd rhaid i'r awdur dalu ffi am yr opsiwn mynediad agored Aur, megis Tâl Prosesu Erthygl. Dylai awduron sy'n gweithio mewn Prifysgol archwilio a oes gan eu SAU gytundeb 'darllen a chyhoeddi' trawsnewidiol gyda chyhoeddwr y cyfnodolyn, oherwydd efallai y byddant wedyn yn gallu gwneud yr erthygl yn un agored heb ffi ychwanegol.

Mantais defnyddio'r opsiwn hwn yw y bydd y cyfnodolyn fel arfer yn gyfrifol am adneuo fersiwn derfynol, gyhoeddedig eich papur yn EuropePMC ar y diwrnod cyhoeddi. Dylai awduron wirio bod hyn yn cael ei wneud, oherwydd fel arall bydd angen iddynt adneuo'r fersiwn derfynol yn EuropePMC eu hunain.

**Opsiwn hunan-archifo**
Os cyflwynwch eich llawysgrif i gyhoeddwr nad yw’n cynnig opsiwn mynediad agored, gallwch barhau i gydymffurfio â’n polisi mynediad agored trwy adneuo copi o’r llawysgrif derfynol, a adolygwyd gan gymheiriaid, yn EuropePMC ar ddyddiad cyhoeddi swyddogol cyhoeddwr y cyfnodolyn.

Mae gan Europe PMC system cyflwyno llawysgrifau awduron. Byddwn yn darparu enwau a manylion cyswllt ein deiliaid grant i EuropePMC a bydd hyn yn caniatáu ichi adneuo'ch llawysgrif yn rhad ac am ddim. Mae canllawiau ar sut i hunan-archifo a manylion buddion ac offer eraill sydd ar gael trwy Europe PubMed Central, ar gael ar wefan Europe PubMed Central: http://plus.europepmc.org/.

Sylwch fod y gallu i hunan-archifo'ch erthygl yn dibynnu ar y ffaith bod gan y Llawysgrif Awdur a Dderbynnir drwydded agored. Bydd angen i awduron hysbysu'r cyfnodolyn ar y pwynt cyflwyno bod ganddynt rwymedigaeth i adneuo eu herthygl ar unwaith yn EuropePMC.

Os yw polisi’r cyhoeddwr yn gwrthdaro â’r rhwymedigaeth hon ac na ellir negodi adenuo uniongyrchol yn EuropePMC, yna bydd angen ichi ailystyried ble i gyhoeddi eich erthygl. Rhagwelir mai mewn amgylchiadau eithriadol yn unig y bydd hyn yn digwydd, gan fod y rhan fwyaf o gyllidwyr y DU, ac eraill ledled y byd, wedi mabwysiadu safbwyntiau tebyg iawn, sy’n golygu bod y trefniadau a awgrymir yma yn prysur ddod yn rhan o arfer ymchwil arferol.

## Cyngor ar gostau

Gall deiliaid grant Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru adneuo eu llawysgrif yn EuropePMC yn rhad ac am ddim.

O ran y ffioedd mynediad agored fel Taliadau Prosesu Erthyglau a godir gan gyhoeddwyr, yn y mwyafrif o achosion, gall ymchwilwyr Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ddefnyddio eu grantiau prosiect neu eu dyfarniadau personol i dalu costau rhesymol.

Mae gwahanol gyfnodolion a chyhoeddwyr yn darparu gwasanaethau gwahanol neu rai gwerth ychwanegol (er enghraifft, creu ffeithluniau, platiau lliw, tudalennau ychwanegol) sy'n golygu efallai y bydd ganddynt gwahanol Daliadau Prosesu Erthyglau. Disgwyliwn i ddeiliaid ein dyfarniadau fod yn ymwybodol o gostau cyhoeddi mewn gwahanol gyfnodolion, a dim ond defnyddio'r cyfnodolion hynny sydd, yn eu barn nhw, yn cynrychioli gwerth am arian.

Sylwch fod rhai cyfnodolion yn gofyn i awduron gytuno i dalu ffi ar y pwynt cyflwyno. Ni ellir defnyddio cyllid Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru i gefnogi’r ffioedd hyn. Dylai awduron hefyd fod yn ymwybodol o “gyfnodolion rheibus” sy'n anfon e-byst sbam at

academyddion i'w cael i gyhoeddi erthygl, ac yna'n codi ffioedd cyhoeddi/mynediad agored mawr er nad yw'r erthyglau hyn yn cael eu hadolygu gan gymheiriaid na'u mynegeio mewn cronfa ddata lyfryddol sydd ag enw da. Gallwch ddefnyddio'r gwasanaeth SHERPA RoMEO i wirio am gyfnodolion cyfreithlon gyda pholisïau mynediad agored.

Ar gyfer ymchwilwyr sy'n gweithio mewn Prifysgolion, dylid hefyd edrych i weld a oes gan eich SAU gytundeb ar waith gyda'r cyhoeddwr sy'n eu galluogi i gyhoeddi erthygl mynediad agored am ddim.

Dylai ymchwilwyr sy'n cael trafferth dod o hyd i gyllid ar gyfer cyhoeddi mynediad agored anfon e-bost at Healthandcareresearchgrants@gov.wales

## Ymholiadau

Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau am y polisi hwn a'i weithrediad at Healthandcareresearchgrants@gov.wales

### Rhestr Termau

***Tâl Prosesu Erthygl (APC):*** Ffi gyhoeddi a delir i gyfnodolion i gyhoeddi erthygl ymchwil mynediad agored.

***Llawysgrif Awdur a Dderbynnir (AAM):*** Fersiwn yr awdur o erthygl ymchwil sydd wedi'i hadolygu gan gymheiriaid ac sy'n cael ei derbyn i'w chyhoeddi, cyn ei chysodi gan y cyhoeddwr. Gall gael ei hadnabod fel arall fel 'llawysgrif awdur' neu 'fersiwn awdur derfynol' neu 'ôl-brint'.

***Trwydded Priodoli Creative Commons (CC BY):*** Trwydded sy'n caniatáu i unrhyw un ddarllen, rhannu ac addasu'r deunydd gwreiddiol am ddim, ond rhaid i'r defnyddiwr roi cydnabyddiaeth briodol a nodi p'un a wnaed newidiadau ai peidio.

***Trwydded Dim-Deilliadau Priodoli Creative Commons (CC BY-ND):*** Trwydded sy'n caniatáu i unrhyw un ddarllen a rhannu'r deunydd gwreiddiol am ddim, gyda chydnabyddiaeth briodol (fel trwydded CC BY), ond gyda'r cyfyngiad ychwanegol pe bai'r darllenydd yn addasu'r deunydd gwreiddiol, ni chânt ddosbarthu'r deunydd a addaswyd.

***Datganiad data:*** Mae'n rhaid cynnwys datganiadau rhannu data wrth gyhoeddi canfyddiadau'r ymchwil, sy'n disgrifio sut i gael gafael ar y data ymchwil sylfaenol.

***Darganfyddadwy:*** Mae cyhoeddiadau darganfyddadwy yn golygu bod darllenwyr a pheiriannau chwilio yn gallu dod o hyd iddynt, fel arfer wedi'u hwyluso trwy gofnod llyfryddol neu fetadata sy'n gysylltiedig â'r testun llawn.

***Embargo:*** Cyfnod pan fydd mynediad at waith ysgolheigaidd yn cael ei gyfyngu i'r rhai sydd wedi talu am fynediad.

***Europe PubMedCentral (EuropePMC):*** Ystorfa ddigidol ar-lein barhaol, rhad ac am ddim, sy'n cynnwys rhagargraffiadau testun llawn a chyhoeddiadau gwyddorau bywyd a adolygir gan gymheiriaid. Fe'i cynhelir gan Sefydliad Biowybodeg Ewropeaidd Labordy Bioleg Moleciwlaidd Ewropeaidd, ac mae wedi'i bartneru â PubMed Central. Mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn un o'r cyllidwyr. Gall unrhyw un yn y byd sydd â mynediad i'r rhyngrwyd ddod o hyd i lawysgrifau wedi'u hadneuo, eu darllen a'u llwytho i lawr am ddim ac yn llawn. Mae'r adnodd hwn yn cynnig ystorfa barhaol a sefydlog a reolir yn ganolog i'n hymchwilwyr ar gyfer eu cyhoeddiadau mynediad agored heb unrhyw gost ychwanegol ac mae'n symleiddio'r broses hunan-archifo.

***Trwydded:*** Mae'r drwydded yn amlinellu'r hyn y gall person ei wneud gyda gwaith hawlfraint trydydd parti (e.e., trwydded Creative Commons (CC) neu drwydded Llywodraeth Agored).

***Dyddiad cyhoeddi terfynol swyddogol***: Y dyddiad cynharaf y bydd fersiwn derfynol y cofnod ar gael ar wefan y cyhoeddwr.

***Mynediad Agored***: Argaeledd parhaol ar-lein o waith ysgolheigaidd drwy'r rhyngrwyd, yn rhad ac am ddim i unigolion sy'n dymuno cael mynediad ato, ei ddarllen a'i ailddefnyddio.

***Trwydded Llywodraeth Agored (OGL):*** Mae gwaith a grëir gan swyddogion neu weision y Goron wrth gyflawni eu dyletswyddau yn dod o dan hawlfraint y Goron ac fel arfer ni ellir ei neilltuo i ffwrdd o'r Goron. Bydd cydweithrediadau rhwng swyddogion neu weision y Goron ac eraill hefyd yn dod yn hawlfraint y Goron mewn perthynas â chyfraniadau'r Goron. Y drwydded ddiofyn y mae'n rhaid ei defnyddio ar gyfer y rhan fwyaf o wybodaeth hawlfraint y Goron yw'r Drwydded Llywodraeth Agored.

***Wal dalu:*** Dull o gyfyngu ar fynediad at gynnwys, (e.e., erthyglau ymchwil, newyddion), trwy brynu neu dalu am danysgrifiad.

***Ystorfa:*** Archif ar-lein o allbynnau ysgolheigaidd (e.e., Europe PMC). Gall y casgliad gynnwys cyhoeddiadau mewn cyfnodolion a adolygir gan gymheiriaid, llyfrau ac adrannau llyfrau, adroddiadau technegol, papurau gwaith, monograffau, cyflwyniadau cynhadledd, data ymchwil, deunyddiau sain a gweledol neu unrhyw gynnwys ymchwil arall sydd â pheth gwerth ysgolheigaidd.

***Hunan-archifo***: Y broses o archifo erthyglau ymchwil i ystorfa ynghyd â metadata llyfryddol (data sy'n disgrifio data arall. Ar gyfer eitemau mewn ystorfeydd mynediad agored, mae hyn fel arfer yn cynnwys cyfeiriad llyfryddol llawn, crynodeb, allweddeiriau a gwybodaeth debyg).

***Cronfa ddata SHERPA RoMEO***: Offeryn sy'n darparu cronfa ddata o bolisïau cyfnodolion a chyhoeddwyr ar hawlfraint a hunan-archifo.

***Fersiwn o Gofnod***: Y fersiwn derfynol o'r erthygl a gyhoeddwyd, sy'n cynnwys golygiadau copi a diwyg y cyhoeddwr.